



POLISI DIOGELU

Dyddiad Cwblhau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb:	Mai 2021
Cymeradwywyd Gan:	Bwrdd
Dyddiad Cymeradwyo:	(Cwricwlwm ac Ansawdd 22/06, Bwrdd 20/07)
Awdur:	Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr)
Dyddiad Adolygu:	Awst 2023

Wedi ei gyhoeddi ar:	Gwefan	Mewnwyd	Porth y Dysgwyr
	✓	✓	✓

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais

Efallai na fydd y copi hwn yn gyfredol os yw wedi ei argraffu

Tudalen

Cynnwys

1.0 Datganiad polisi		3
2.0 Diben a Chwmpas		3
3.0 Fframwaith Cyfreithiol		3
4.0 Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth 4		
5.0 Categoriâu Cam-drin		4
6.0 Nodi Cam-drin Posibl		6
7.0 Cyfrinachedd a Datgelu		6
8.0 Gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion honedig o gam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed		8
9.0 Honiadau o gam-drin yn erbyn aelod o staff	10	
10.0 Delio â Phryderon am Radicaleiddio		10
11.0 Rolau a Chyfrifoldebau		11
12.0 Cwnselwyr y Coleg		14
13.0 Anfodlonrwydd ag ymchwiliad/ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn		14

ATODIADAU

Atodiad A: Cysylltu â'r Adran briodol yn yr Awdurdod Lleol

Atodiad B: Gweithdrefn Ddiogelu - Canllaw i gwnselwyr **Atodiad C:** Rhoi Gwybod am Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau o Staff ac Ymdrin â hwy

Atodiad D: Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Atodiad E: Priodas Dan Orfod

Atodiad F: Diogelu Llwybrau Dysgu 14-19 (Gan gynnwys EHE)

Polisi Diogelu

1.0 DATGANIAD POLISI

Mae'r Coleg yn cydnabod bod gan ddysgwyr hawl sylfaenol i gael eu diogelu rhag niwed ac y dylent gael y cyfle i sicrhau'r budd mwyaf posibl o gyfleoedd hyfforddi ac addysg o safon uchel.

Mae'r Coleg yn cydnabod ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae ganddo ddyletswydd foesol a statudol i weithredu ei swyddogaethau wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n derbyn addysg a hyfforddiant gyda'r Coleg.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau perthnasol i gymryd pob cam rhesymol ymarferol i sicrhau bod y cyfrifoldebau bugeiliol a chyfreithiol sy'n ddyledus i ddysgwyr, o ran diogelu plant ac oedolion bregus, yn cael eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth bresennol, canllawiau proffesiynol priodol ac arfer gorau.

Mae'r Coleg hefyd yn rhannu amcan gyda'r holl Awdurdodau Lleol, Heddlu a rhanddeiliaid yn y gwasanaeth addysg i helpu i gadw plant ac oedolion bregus yn ddiogel drwy gyfrannu at greu amgylchedd dysgu diogel; cydnabod pan fo pryderon ynghylch llesiant plant ac oedolion bregus yn codi a gweithredu i'w datrys gydag asiantaethau eraill.

Bydd y Polisi hwn yn agored i adolygiad anffurfiol blynyddol gan y Pwyllgor Diogelu ac adolygiad ffurfiol bob dwy flynedd gan Gorfforaeth y Coleg oni bai bod angen cymeradwyo newidiadau yn dilyn adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Diogelu.

2.0 DIBEN A CHWMPAS

Diffiniadau:

Yng nghyd-destun Diogelu, mae 'plant a phobl ifanc' yn cyfeirio at y rhai hynny o dan 18 oed. Lle mae cyfeiriad at "rieni", mae hyn yn cynnwys yr unigolion hynny â chyfrifoldeb fel rhiant.

Mae 'oedolyn sy'n agored i niwed' yn berson y mae angen gwasanaethau gofal cymunedol arno neu y gall fod eu hangen arno oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, cymorth neu salwch ac sy'n methu â gofalu amdano'i hun neu ei ddiogelu ei hun rhag cael ei niweidio neu ei gam-fanteisio'n ddifrifol neu sydd o bosibl yn methu â gwneud hynny.

Mae gan y Coleg ddyletswydd statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed a helpu Awdurdodau Lleol, yr heddlu ac asiantaethau eraill os ceir honiad o gam-drin yn ymwneud â phlentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed ar safle'r Coleg. Bydd y Coleg yn cofrestru pryderon sylweddol ynglŷn â phlentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed drwy system y Coleg y cytunwyd arni ac yn cyfranogi fel y bo'n briodol mewn camau dilynol. Lle ceir pryderon bod plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed wedi ei gam-drin neu y gallai fod mewn perygl o niwed sylweddol gwneir atgyfeiriad i'r asiantaethau priodol – e.e. yr heddlu, Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol.

3.0 FFRAMWAITH CYFREITHIOL

Mae'r paragraffau isod yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n sefydlu rôl Corff Llywodraethu'r Coleg mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed:

Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a chyrrff llywodraethu Colegau Addysg Bellach (ac ysgolion) wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni gyda'r nod o ddiogelu lles plant. Rhaid iddynt roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth ystyried pa drefniadau sydd angen iddynt eu gwneud.

Mae *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, chyrrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol dan Ddeddf Addysg 2002* (Llywodraeth Cymru, 2020, canllawiau rhif 265/2020) yn nodi swyddogaeth Awdurdodau Lleol a Chyrrff Llywodraethu Ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach a sefydliadau eraill i roi cyngor ar y camau y dylid eu cymryd i sicrhau y gall achosion o gam-drin a amheuir neu achosion o gam-drin a nodwyd gael eu hystyried a'u holrhain yn briodol. Mae *Canllawiau Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008* yn nodi'r gweithdrefnau y mae holl Fyrddau Lleol Diogelu Plant Cymru wedi cytuno i'w gweithredu.

Yn ogystal, rhoddwyd sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru, "Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl", sy'n rhoi canllawiau ar sut y dylai sefydliadau ac unigolion gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant. Mae argymhellion cyhoeddiad Llywodraeth EM 'What to do if you are worried a child is being abused' ac argymhellion y ddogfen bolisi i Loegr 'Safeguarding Children in Education' (2004) wedi eu hystyried hefyd.

Mae Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal Gwiriadau Cofnod Troseddol cyn y caniateir i gyflogeion ddod i gysylltiad ag oedolion sy'n agored i niwed. O dan y ddeddfwriaeth hon mae'n ofynnol i'r Coleg wneud cais am ddatgeliad manwl o'r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer staff sy'n gweithio gyda'r cyfryw ddysgwyr.

Adran 26 (1) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015: Mae Canllawiau Dyletswyddau Prevent: ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a Lloegr yn gosod cyfrifoldeb ar addysg bellach wrth ymarfer eu swyddogaethau i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth, sy'n cynnwys eithafiaeth dreisgar a di-drais. Yn rhan o'r ddyletswydd hon, mae Coleg Gwent wedi creu Cynllun Gweithredu Diogelu, a adolygir yn ystod cyfarfodydd y Tîm Diogelu.

Bydd y Coleg yn parhau i adolygu ei bolisi a'i weithdrefnau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed er mwyn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth, rheoliadau neu arfer gorau newydd gan y Llywodraeth a ddaw i law, er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r diweddaraf o ran diogelwch a lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

4.0 HYFFORDDIANT AC YMWHYBYDDIAETH

Mae'r Coleg yn cydnabod bod angen i'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed gael hyfforddiant sylfaenol ym maes diogelu sy'n eu galluogi i adnabod pryderon ynglŷn â lles ac ymateb iddynt. Mae'r weithdrefn hon wedi ei chynllunio hefyd i sicrhau bod staff y Coleg yn meithrin y sgiliau priodol (er eu budd eu hunain yn ogystal ag er budd y plant a'r oedolion sy'n agored i niwed). Yn unol â hynny, bydd pob aelod o staff gan gynnwys y Pennaeth, gwirfoddolwyr a darparwyr trydydd parti yn cael hyfforddiant sy'n ddigonol i godi eu hymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelu ac i'w gwneud yn gyfarwydd â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau wrth i'r polisi hwn gael ei gyflwyno a'i roi ar waith. Darperir hyfforddiant gloywi o leiaf unwaith bob dwy flynedd.

5.0 CATEGORÏAU CAM-DRIN

Daw'r categorïau cam-drin canlynol o'r canllaw Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004:

Cam-drin Corfforol:

Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu neu fel arall achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed. Gellir achosi niwed corfforol hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau afiechyd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed y maent yn gofalu amdano, neu'n achosi'r afiechyd yn fwriadol. Gellir disgrifio'r sefyllfa hon fel salwch a gaiff ei greu neu ei achosi gan ofalwr.

Cam-drin Emosiynol:

Cam-drin emosiynol yw trin plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn wael yn emosiynol yn barhaus gan gael effaith andwyol ddifrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed. Gall gynnwys cyfleu i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed ei fod yn ddi-werth neu nad oes neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu'n cael ei werthfawrogi dim ond i'r graddau ei fod yn diwallu anghenion unigolyn arall. Gall gynnwys rhoi disgwyliadau amhriodol ar blant neu oedolion sy'n agored i niwed, o ran eu hoedran neu eu datblygiad. Gall gynnwys peri i blant neu oedolion sy'n agored i niwed deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gamfanteisio neu lygru plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae rhyw lefel o gam-drin emosiynol yn rhan o'r holl fathau o gam-drin yn erbyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

Cam-drin rhywiol:

Mae cam-drin rhywiol yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un a yw'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, yn cynnwys gweithredoedd treiddgar neu rai nad ydynt yn dreiddgar. Gall y rhain gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cael plant neu oedolion sy'n agored i niwed i wyllo deunyddiau pornograffig neu i fod yn rhan ohonynt neu i wyllo gweithgareddau rhywiol, neu annog plant neu oedolion sy'n agored i niwed i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol. (I gael gwybodaeth a chanllawiau ar Gam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, ewch i Atodiad D).

Esgeulustod:

Esgeuluso plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn barhaus neu'n ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed rhag cael ei roi mewn unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerfel, newyn neu fethiant difrifol i gyflawni agweddau pwysig ar ofal, a thrwy hynny amharu'n sylweddol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed.

Cam-drin Hiliol

Mae'r Coleg yn ymwybodol o'i ddyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ati ar sail rhyw, hil, anabledd, a lle y bo'n briodol, dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Chynllun Cydraddoldeb Sengl y Coleg. Dylai staff wybod bod diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cynnwys cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

Cam-drin Ariannol

Mae cam-drin ariannol yn ffordd o gam-drin a thwylo lle bydd rhywun yn rheoli arian neu asedau eraill sy'n eiddo i rywun arall drwy orfodaeth. Er enghraifft, gall gynnwys dwyn arian, peidio â chaniatáu i'r dioddefwr wneud unrhyw benderfyniadau ariannol neu atal y dioddefwr rhag cael swydd. Mae'r broblem hon yn tueddu i godi fel arfer mewn

cydberthnasau domestig, megis rhwng gŵr a gwraig neu riant oedrannus a phlentyn sy'n oedolyn.

Bwlio ac Aflonyddu:

Dylai'r Coleg fod yn ymwybodol o'r polisi hwn a lle y bo'n briodol dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â Pholisi Bwlio ac Aflonyddu'r Coleg. Dylai staff fod yn ymwybodol y gellir ystyried bwlio ac aflonyddu fel categori arall o gam-drin a all hefyd gynnwys elfennau eraill o unrhyw un o'r pedwar prif gategori cam-drin uchod, e.e. gall gynnwys bwlio sy'n ynysu'r plant neu'r oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n gwneud iddynt deimlo fel petaent wedi eu hallgáu rhag grwpiau cymdeithasol neu addysgol.

Dylai'r holl staff fod yn ymwybodol o'r dangosyddion sy'n arwain at amau achos o gam-drin ac yn achos pryderon neu amheuon o gam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed, dylid gweithredu'r weithdrefn gysylltiedig yn ddi-oed.

6.0 NODI CAM-DRIN POSIBL

Gellid adnabod cam-drin posibl drwy arwyddion gweledol/ymddygiad. Er enghraifft gall fod cleisiau, rhwygiadau yn y croen a llosgiadau i'w gweld, sy'n arwyddion o gam-drin corfforol. Mae arwyddion posibl o esgeulustod corfforol, yn cynnwys dillad annigonol, twf gwael, llwgu neu ddiffyg maeth a gall arwyddion o gam-drin emosiynol gynnwys, er enghraifft, dibyniaeth ormodol neu chwilio am sylw.

Gall arwyddion/anafiadau corfforol, neu newid ymddygiadol sylweddol/o bwys yn cynnwys rhagaeddfedrwydd neu ymbellhau ddangos cam-drin rhywiol.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr ac ni all tystiolaeth o un neu ragor o'r ffactorau a restrir uchod wneud mwy nag arwain at amheuon o gam-drin ac nid ydynt yn dystiolaeth o gam-drin ynddynt eu hunain. Fodd bynnag, os byddwch yn pryderu am les plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed am unrhyw reswm, mae'n rhaid i staff weithredu.

Gall plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed ddweud yn benodol iddynt gael eu cam-drin. Yn yr un modd, gall unigolyn arall ddweud bod plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed wedi ei gam-drin.

Wrth ddelio â pherson ifanc neu oedolyn sy'n agored i niwed ag anghenion addysgol arbennig, rhaid gofyn am gyngor gan Gynghorydd/Aseswyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y campws neu Arweinydd ADY y Coleg, cyn gwneud unrhyw beth.

Os bydd gan aelod o staff bryderon sylweddol am blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed ond nid yw o'r farn bod achos o gam-drin na risg o niwed uniongyrchol, dylai'r aelod o staff:

1. Siarad â Phennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y campws a fydd yn ystyried a ddylai'r pryderon am y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed gael eu cofrestru'n ffurfiol gan y Coleg; ac
2. Os yw'r Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr a'r aelod o'r staff o'r farn ei fod yn briodol, siarad â'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed am y pryderon.

7.0 CYFRINACHEDD A DIOGELU

Caiff ffiniau cyfrinachedd clir eu cyfleu, er nid yw pob darn o wybodaeth yn gyfrinachol. Gwybodaeth gyfrinachol yw gwybodaeth o gryn sensitifrwydd, nad yw eisoes ar gael yn gyhoeddus yn gyfreithlon nac ar gael yn hawdd o ffynhonnell gyhoeddus arall, ac y mae'r

unigolyn sy'n ei rhannu yn gwneud hynny ar yr amod na chaiff ei rhannu ag eraill. Er enghraifft, efallai fod athro yn gwybod bod rhiant un o'i ddysgwyr yn camddefnyddio cyffuriau. Mae'r wybodaeth honno yn sensitif iawn, ond efallai nad yw'n gyfrinachol os yw'n hysbys i lawer o bobl neu os yw'r unigolyn a'i rhannodd â'r athro yn deall y caiff ei rhannu ag eraill. Fodd bynnag os bydd y dysgwr yn rhannu'r wybodaeth â'r athro yn ystod sesiwn cwnsela, er enghraifft, byddai'n gyfrinachol.

Nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i blant ac oedolion sy'n agored i niwed yn absoliwt a gellir datgelu gwybodaeth gyfrinachol a dylid gwneud hynny er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed neu blentyn unigol arall neu oedolyn unigol arall sy'n agored i niwed rhag niwed.

Dim ond pan gaiff gwybodaeth gyfrinachol ei rhannu heb ganiatâd yr unigolyn a'i darparodd neu'r unigolyn y mae'n ymwneud â hi y caiff cyfrinachedd ei dorri. Os darparwyd yr wybodaeth ar yr amod y caiff ei rhannu ag ystod gyfyngedig o bobl neu at ddibenion cyfyngedig, yna ni chaiff cyfrinachedd ei dorri os caiff yr wybodaeth ei rhannu yn unol â'r amod hwnnw. Yn yr un modd, os rhoddir caniatâd penodol i rannu gwybodaeth, ni chaiff cyfrinachedd ei dorri.

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cael caniatâd cyn rhannu gwybodaeth bersonol â thrydydd partion ond rhaid i'r ddyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed bob amser fod yn bwysicach na'r ddyletswydd gyffredinol i gadw cyfrinachedd neu i gael caniatâd gan drydydd parti, er enghraifft, aelod o'r teulu os oes perygl bod plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn dioddef niwed sylweddol neu ddifrifol. Diogelwch y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yw'r brif ystyriaeth bob amser.

Mae gan staff gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed â gweithwyr proffesiynol eraill, yn arbennig, asiantaethau ymchwilio, gyda chaniatâd lle bo hynny'n bosibl. Efallai y bydd cyfnewid gwybodaeth berthnasol rhwng gweithwyr proffesiynol yn angenrheidiol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed. Er y gall staff fod yn pryderu am yr angen i gydbwyso eu dyletswyddau i amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed rhag niwed a'u dyletswydd gyffredinol tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, rhaid mai lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yw'r ystyriaeth bwysicaf bob amser.

Ym mhob achos o gam-drin a amheuir, ni ddylai staff drafod y mater ag aelod arall o staff ond yn hytrach dylent roi'r manylion yn syth i'r Person Dynodedig, sef Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y Campws, a fydd yn penderfynu pa gamau i'w cymryd. Os na ellir cysylltu â'r aelod o staff dynodedig, dylid hysbysu'r Arweinydd Diogelu, sef y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr).

Os na cheisiwyd caniatâd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol, neu os gofynnwyd am ganiatâd ond cafodd ei atal, mae'n bwysig bod yr aelod o staff yn dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed mewn ffordd sensitif briodol bod ganddo gyfrifoldeb i gyfeirio achosion o gam-drin honedig at yr asiantaethau priodol (os yw'r Person Dynodedig o'r farn nad yw hyn yn debygol o gynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed). Dylid rhoi sicrwydd i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed mai dim ond i bobl y mae angen iddynt wybod y caiff materion eu datgelu ac y caiff y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed ei hysbysu. Os yw'r Person Dynodedig o'r farn y gallai dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed y caiff y mater ei gyfeirio at yr asiantaethau priodol gynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn, neu'r oedolyn sy'n agored i niwed, ni ddylid rhoi'r wybodaeth honno i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed.

Mewn amgylchiadau lle na chafwyd caniatâd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed i ddatgelu, mae'n rhaid i'r staff ystyried a oes ganddynt, serch hynny, ddyletswydd bwysicach i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylid ystyried y cwestiynau canlynol:-

- A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i atal a chanfod troseddau, atal anhrefn, diogelu'r cyhoedd neu ddiogelu hawliau a rhyddid eraill?
- A yw'r datgeliad yn angenrheidiol i ddiogelu plant neu oedolion sy'n agored i niwed?
- Pa risgiau i eraill (*os o gwbl*) a berir gan yr unigolyn hwn?
- Beth yw gwendid y rhai a all fod mewn perygl?
- A yw'r datgeliad yn gymesur â'r nod a fwriedir?
- A oes dulliau amgen o gyflawni'r nod hwnnw sydd yr un mor effeithiol ond yn llai ymwithiol?

8.0 GWEITHDREFN AR GYFER YMDRIN AG ACHOSION HONEDIG O GAM-DRIN PLANT NEU OEDOLION SY'N AGORED I NIWED

8.1 Adnabod digwyddiad diogelu honedig

Os bydd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn datgelu achos o gam-drin neu os bydd amheuaeth o gam-drin, dylai staff wneud y canlynol:

- Gwrando'n ofalus ac aros yn bwylllog
- Rhoi cyfle i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed roi cyfrif di-dor o'u pryderon. Os bydd angen i chi ofyn cwestiynau er mwyn cael eglurhad, holwch yn y ffordd arferol heb bwysau er mwyn bod yn siŵr bod yr hyn mae'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yn ei ddweud yn cael ei ddeall yn llawn er mwyn i chi allu sicrhau eich bod yn gwneud cofnod cywir.
- Nodi'r prif bwyntiau'n ofalus, bod yn ffeithiol a defnyddio geiriau'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed.
- Gwneud nodyn manwl o'r canlynol:
 - Dyddiadau
 - Amseroedd/lleoedd lle digwyddodd y cam-drin honedig
 - Yr hyn a ddywedodd y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed a'r hyn a wnaethant
 - Unrhyw gwestiynau a holwch ac ateb y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed
 - Arsylwadau o unrhyw anafiadau
 - Eich enw ac enwau unrhyw bobl eraill sy'n bresennol a dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod

Hysbyswch y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed fod gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol i hysbysu'r awdurdodau priodol o achosion o gam-drin honedig er mwyn ymchwilio iddynt, ond y cedwir nifer y bobl dan sylw i isafswm ac y caiff yr wybodaeth honno ei datgelu ar sail angen i wybod ac y parheir i hysbysu'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed o'r camau gweithredu a gymerir bob amser (oni bai bod hynny'n debygol o gynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed).

Rhowch sicrwydd i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed drwy gydol yr amser, drwy ddweud wrth aelod o staff iddo wneud y peth cywir. Rhowch wybod i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed bod cymorth cwnsela ar gael gan Gwnselydd y Campws (neu mewn mannau eraill mewn achosion priodol).

Os bydd gan y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed sy'n rhoi gwybod am y cam-drin honedig anabledd a/neu anawsterau cyfathrebu, dylid cymryd gofal ychwanegol i sicrhau bod gan y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed fynediad at unrhyw aelod o staff neu weithiwr cymorth (fel y bo'n briodol) a bod yr aelod o staff dan sylw yn meddu ar y sgiliau cyfathrebu priodol i alluogi'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed i gyfleu'n effeithiol y cam-drin y mae'n dymuno rhoi gwybod amdano, e.e. Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol y campws, neu Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol y Coleg.

NI ddylai staff:

- Ddweud wrth y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed pa eiriau i'w defnyddio na gofyn cwestiynau arweiniol.
- Ymchwilio i bryderon neu honiadau. Nid oes gan aelodau staff unigol rôl ymchwiliol ond dylent hysbysu'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu, o honiadau ar unwaith.
- Addo cyfrinachedd. Dylai'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed ddeall os ceir erlyniad troseddol a/neu gamau disgyblu yna ni all unrhyw beth a ddywed y dioddefwr neu'r tystion aros yn gyfrinachol.
- Anghofio cofnodi'r hyn a ddywedwyd wrthynt yn ysgrifenedig, a dylent gofnodi'r amser, y dyddiad, y lle a'r bobl sy'n bresennol. Dylid cofnodi atebion y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yn union fel y'u dywedwyd hyd y gellir.
- Methu â throsglwyddo'r wybodaeth, fel sy'n ofynnol o dan y weithdrefn hon, i'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu.
- Tybio y bydd rhywun arall yn cymryd y camau gweithredu angenrheidiol.

8.2 Hysbysu Staff Dynodedig

Dylai staff hysbysu'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu o unrhyw bryderon, amheuan neu ddatgeliadau cam-drin cyn gynted â phosibl ac o fewn 24 awr. Dylai'r Person Dynodedig sicrhau bod yr unigolyn a roddodd wybod am y pryder yn cwblhau adroddiad. Bydd y Person Dynodedig yn cadw copi o'r canlynol:

- Yr adroddiad
- Unrhyw nodiadau neu ohebiaeth sy'n ymdrin â'r mater
- Unrhyw ddeunydd perthnasol arall

Dylid cadw copi o'r adroddiadau, nodiadau a'r holl ddogfennau wedi eu cloi'n ddiogel ar bob adeg a chaiff mynediad at y cofnodion ei gyfyngu i staff dynodedig.

8.3 Hysbysu'r Uwch Aelod o Staff â Chyfrifoldeb Arweiniol

Rhaid i'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu yn ei absenoldeb hysbysu'r uwch aelod o staff â chyfrifoldeb arweiniol, sef yr Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd), cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac ym mhob achos o fewn 24 awr i'r datgeliad neu'r amheuaeth.

Yn achos dysgwr Cyswllt Ysgol, dylai'r Person Dynodedig gydweithio'n agos ag aelod o staff dynodedig yr ysgol. Ewch i Atodiad F i weld Datganiad Diogelu Llwybrau Dysgu 14-19 y Coleg (Gan gynnwys EHE).

Yn achos honiad o gam-drin gwirioneddol yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn y Coleg lle mae'r camdriniwr honedig yn ddysgwr yn y Coleg, dylai'r Person Dynodedig ystyried gweithdrefnau eraill y Coleg fel y bo'n briodol wrth ddilyn gweithdrefnau diogelu.

8.4 Cyswllt â'r Gwasanaeth Plant

Mae'n rhaid i'r Person Dynodedig hysbysu Adran Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn byw o'r mater dros y ffôn cyn gynted â phosibl. Dylid gofyn i'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd am ffurflen gyfeirio amlasiantaethol.

Dylid gwneud cofnod ysgrifenedig o ddyddiad ac amser yr adroddiad ac mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys enw a swydd yr unigolyn a gaiff ei hysbysu o'r mater. Rhaid rhoi cadarnhad ysgrifenedig o adroddiad ffôn, drwy ddefnyddio'r ffurflen gyfeirio briodol, lle y bo'n bosibl i'r adran Gwasanaethau Plant o fewn 24 awr pellach. Dylai staff fod yn ymwybodol bod cofnodion wedi eu

cadw'n dda yn hanfodol ar gyfer arfer da ym maes amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Dylai'r Person Dynodedig drafod â'r gweithiwr cymdeithasol:-

- Pa gamau gweithredu (os o gwbl) y dylid eu cymryd i hysbysu'r rhiant/gofalwr a/neu'r plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed? Dylid gwneud nodyn o'r sgwrs honno.
- Y broses ar gyfer parhau i hysbysu'r Coleg o gamau gweithredu pellach a gymerir.

Dylid cael cyngor cyfreithiol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch faint o wybodaeth y dylid ei rhannu a pha mor briodol yw ei rhannu.

Pan fo dysgwr sydd mewn perygl yn syth neu sy'n bygwth hunanladdiad yn cysylltu ag aelod staff y tu allan i oriau'r coleg, dylai'r aelod staff ffonio 999 a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Heddlu, a dylai gynnwys lle mae'r dysgwr ac unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r datgeliad neu'r hyn sy'n digwydd. Boed y dysgwr mewn perygl yn syth ai peidio, rhaid i'r aelod staff hefyd adrodd am y datgeliad wrth y Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu cyn gynted ag y bo modd.

Pan fydd yr Heddlu a/neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol angen rhagor o wybodaeth, rhaid i'r aelod staff gysylltu â'r Person Dynodedig, a fydd yn cyrchu system rheoli gwybodaeth y Coleg (EBS) i gael gwybodaeth, e.e. enwau a chyfeiriadau cyd-ddisgyblion a rhifau cyswllt mewn argyfwng ac ati.

Os bydd y dysgwr dan 18 oed, dylid fel arfer gysylltu â'r rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr, oni bai:

- Bod risg niwed sylweddol i'r plentyn
- Bod y staff yn teimlo dan fygythiad
- Bod y plentyn â'r gallu i fynegi dymuniad nad yw'r rhieni yn cael gwybod.

Ym mhob achos, yr hyn sydd drechaf yw lles y plentyn. Pan fo unrhyw amheuaeth o gwbl ynghylch mynd at y rhieni, ni ddylid eu cynnwys, neu gellir gofyn am gyngor gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol berthnasol. Dylid cofnodi'n llawn y rhesymau dros unrhyw benderfyniad.

9.0 HONIADAU O GAM-DRIN YN ERBYN AELOD O STAFF

Gall fod achosion lle bydd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn cyhuddo aelod o staff o gam-drin. Mewn achosion o'r fath ac yn ogystal â'r weithdrefn uchod y dylid ei dilyn yn llym o ran cynnwys ac amseru, rhaid i'r Unigolyn Dynodedig hysbysu'r Cyfarwyddwr (*Adnoddau Dynol*) ar unwaith. Bydd y Cyfarwyddwr (*Adnoddau Dynol*) yn sail i'r Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) ac yn enwebu Swyddog Ymchwilio yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Disgyblu'r Coleg. Caiff unrhyw gamau gweithredu a gymerir o ganlyniad i'r honiad eu cymryd yn unol â'r polisi hwnnw er na chymerir unrhyw gamau gweithredu i beryglu nac ymyrryd ag unrhyw ymchwiliadau a gynhelir gan yr awdurdodau perthnasol. Mae Atodiad C yn nodi'r darpariaethau ar gyfer rhoi gwybod am honiadau o'r fath ac ymdrin â hwy.

10.0 DELIO Â PHRYDERON AM RADICALEIDDIO

Mae'r ddyletswydd i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn cynnwys eu diogelu rhag bod ynghlwm wrth grwpiau sydd â'r nod o radicaleiddio unigolion. Mae radicaleiddio yn cyfeirio at y broses sy'n arwain at berson yn cefnogi terfysgaeth a ffurfiau ar eithafiaeth sy'n arwain at derfysgaeth.

Mae Strategaeth Atal y llwyodraeth (Prevent) wedi nodi colegau Addysg Bellach fel lleoliadau y gallai radicaleiddio ddigwydd ynddynt.

Gellir disgrifio'r ffactorau a ystyrir wrth benderfynu a yw unigolion yn agored i gael eu cynnwys mewn terfysgaeth fel a ganlyn:

- Ymgysylltu â grŵp, achos neu ideoleg
- Bwriad i achosi niwed
- Y gallu i achosi niwed

Efallai y bydd staff neu ddysgwyr yn gofidio am rywun yn sgil newidiadau mewn ymddygiad neu olwg. Er enghraifft:

- Gallai unigolion roi gorau i gysylltu â chyfoedion a bod â diddordeb mewn cyswllt ag aelodau grŵp ideoleg benodol yn unig
- Gallai unigolion newid y ffordd maen nhw'n gwisgo
- Gallai unigolion gyfiawnhau trais yn enw'r ideoleg maen nhw'n ei chefnogi

Gallai fod llawer o resymau gwahanol dros newidiadau o'r fath, ac felly dylid ystyried hyn yn fater o ddiogelu gan y byddai hyn yn caniatáu gwasanaethau perthnasol y tu fewn a'r tu allan i'r coleg i nodi anghenion unigolyn, a'r hyn sy'n ei wneud yn agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a fyddai'r broses Sianelu o fudd i'r unigolyn.

Os yw aelod staff neu ddysgwr yn poeni bod unigolyn yn cael ei radicaleiddio dylai siarad â'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu. Os bydd y pryderon ynghylch dysgwr sy'n Dysgu yn y Gymuned (DYG), dylai staff neu ddysgwyr gysylltu â'r Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu yn y Gymuned (DYG).

11.0 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Ceir Llywodraethwr dynodedig y Coleg, uwch aelod o staff a phersonau dynodedig sydd oll â chyfrifoldeb arbenigol am faterion yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r Coleg wedi datblygu gweithdrefnau yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru a chyrrff a grwpiau perthnasol eraill yn cynnwys Cymdeithas y Colegau, a chan ystyried y canllawiau hynny. Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed y Coleg yn gyson â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Rôl y Corff Llywodraethu

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymrwymedig i sicrhau bod y Coleg yn:

- Darparu amgylchedd diogel i blant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn y Coleg.
- Nodi plant ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol ac yn cymryd camau gweithredu priodol i sicrhau bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed o'r fath yn cael eu cadw'n ddiogel yn y Coleg.
- Meddu ar weithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff, dysgwyr eraill a gwirfoddolwyr ac yn ymdrin â hyn.
- Gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel.
- Dynodi aelod o staff â digon o awdurdod i gymryd y cyfrifoldeb arweiniol am amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran trefniadau amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a dynnir at sylw'r Corff Llywodraethu.

Llywodraethwr Dynodedig (Diogelu)

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig yn gyfrifol am gysylltu â'r Pennaeth a Phersonau Dynodedig i sicrhau:

- Bod polisi'r Coleg yn cyflawni gofynion Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru;
- Bod y Polisi yn destun adolygiad blynyddol gan y Corff Llywodraethu.
- Bod y Corff Llywodraethu yn cael gwybod sut mae'r Coleg a'i staff wedi cydymffurfio â'r Polisi.

Bydd y Llywodraethwr Dynodedig hefyd yn gyfrifol am oruchwylio gweithgarwch cysylltu ag asiantaethau priodol mewn cysylltiad â honiadau yn erbyn y Pennaeth neu un o'r Personau Dynodedig. Ni fydd hyn yn cynnwys cynnal ymchwiliad ffurfiol ond bydd yn sicrhau bod partïon yn cyfathrebu â'i gilydd ac yn rhoi gwybodaeth i gynorthwyo ymholiadau. Bydd y Llywodraethwr Dynodedig hefyd yn sicrhau bod yr uwch aelod o staff â chyfrifoldeb arweiniol yn cyflawni ei gyfrifoldebau.

I gynorthwyo'r Llywodraethwr Dynodedig i gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd yn cael hyfforddiant priodol.

Ceir manylion cyswllt y Llywodraethwr Dynodedig gan y Swyddog Llywodraethu.

Uwch Aelod o Staff â Chyfrifoldeb Arweiniol

Caiff y rôl hon ei chyflawni gan yr Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) ac mae'n gyfrifol am y canlynol:

- Cymryd y cyfrifoldeb arweiniol am godi ymwybyddiaeth ymhlith staff o faterion sy'n ymwneud â lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed a hyrwyddo amgylchedd diogel ar gyfer y plant ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n dysgu ac o dan ofal yn y Coleg.
- Sicrhau bod yr Arweinydd Diogelu a'r Personau Dynodedig yn cyflawni eu cyfrifoldebau
- Cyflwyno adroddiad yn flynyddol i Gorff Llywodraethu'r Coleg ar sut mae'r Coleg wedi cyflawni ei ddyletswyddau.
- Hysbysu'r Corff Llywodraethu o ddiffygion (a all gael eu nodi'n fewnol neu gan asiantaethau allanol) mewn gweithdrefn cyn gynted â phosibl.
- Cadeirio Pwyllgor Diogelu'r Coleg.
- Sicrhau y cyfeirir at y Polisi ar wefan y Coleg a'i fod ar gael yno.
- Cyfrannu at ddiweddarau ac adolygu'r Polisi Diogelu yn flynyddol.

Bydd yr aelod staff sydd â chyfrifoldeb arweiniol wedi cael hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gweithio rhyngasiantaethol yn ôl y gofyn a bydd yn cael hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd. Bydd yr aelod o staff â'r cyfrifoldeb arweiniol yn sicrhau ei fod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ymwneud â materion amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Arweinydd Diogelu

Y Cyfarwyddwr (Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr) fydd y Swyddog Diogelu a bydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod y Personau Dynodedig (neu unrhyw berson arall sy'n briodol i'r amgylchiadau) yn cadw cofnodion priodol o unrhyw atgyfeiriad, cwyn neu bryder (hyd yn oed pan nad yw'n arwain at atgyfeiriad);

- Sicrhau bod y Personau Dynodedig yn cydgysylltu'n briodol gydag asiantaethau allanol a sicrhau bod staff, rhieni, sefydliadau partner a dysgwyr yn ymwybodol o Bolisi Diogelu'r Coleg;
- Rhoi cyngor a chymorth i staff arall ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed;
- Sicrhau pan fydd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn gadael y Coleg, fod copi o'i ffeil amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed yn cael ei anfon i'w sefydliad addysg newydd a'i drosglwyddo ar wahân i brif ffeil y dysgwr;
- Ymdrin ag achosion unigol yn cynnwys mynd i gynadleddau achosion a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol;
- Trafod y sefyllfa â'r Awdurdod Lleol priodol (gweler Atodiad A) yn cynnwys cyngor a thrafodaeth o ran a yw atgyfeiriad ffurfiol ar gyfer amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed yn ofynnol;
- Gweithredu fel yr enw cyswllt i asiantaethau sydd angen cysylltu â'r Coleg ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed;
- Cael hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gweithio rhyngasiantaethol fel sy'n ofynnol a chael hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Lle mae cynllun amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed rhyngasiantaethol ar waith, sicrhau bod y Coleg, os yw'n angenrheidiol, yn cymryd rhan yn y broses o baratoi'r cynllun a sicrhau bod rôl y Coleg wedi ei diffinio'n glir;
- Cadw cofnodion cyfrinachol o'r holl gamau gweithredu a gymerwyd o ran unrhyw achos sy'n cynnwys honiadau o gam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed;
- Cyfrannu at ddiweddarau ac adolygu'r Polisi Diogelu.

Y 'Person Dynodedig'

Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y Campws priodol fydd y Person Dynodedig a bydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o faterion sy'n ymwneud â lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed a hyrwyddo amgylchedd diogel ar gyfer y plant ac oedolion sy'n agored i niwed sy'n dysgu ac o dan ofal ar y campws;
- Rhoi cymorth i staff a all fod yn rhan o'r broses o weithredu'r polisi drwy:
 - Sicrhau y nodir anghenion hyfforddi, gan ymgynghori ag unigolion a threfnu hyfforddiant mewn swydd i staff, a fydd yn cynnwys hyfforddiant gloywi i staff campws o leiaf bob tair blynedd;
 - Sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod pwy yw'r Person Dynodedig;
 - Sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod bod angen hysbysu'r Person Dynodedig o bryderon ynghylch cam-drin neu achosion posibl o gam-drin neu, yn ei absenoldeb, yr Arweinydd Diogelu;
 - Ymdrin ag achosion unigol yn cynnwys mynd i gynadleddau achosion a chyfarfodydd adolygu fel y bo'n briodol;
- Rhoi cyngor a chymorth i staff arall ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed;
- Cysylltu ag ysgolion uwchradd sy'n anfon disgyblion i'r Coleg i sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud ar gyfer y disgyblion;
- Cysylltu â chyflogwyr a sefydliadau hyfforddiant sy'n derbyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed o'r Coleg ar leoliadau i sicrhau bod camau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith;
- Trafod y sefyllfa â'r Awdurdod Lleol priodol (gweler Atodiad A) yn cynnwys cyngor a thrafodaeth o ran a yw atgyfeiriad ffurfiol ar gyfer amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed yn ofynnol;
- Gweithredu fel yr enw cyswllt i asiantaethau sydd angen cysylltu â'r Coleg ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu oedolion sy'n agored i niwed;

- Bod yn atebol i'r aelod o staff sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol;
- Cael hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gweithio rhyngasiantaethol fel sy'n ofynnol a chael hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Nodi'r angen am gymorth y gall fod ei angen ar unrhyw gyflogai pan fydd yn ymwneud ag achos o gam-drin a chysylltu â'r Cyfarwyddwr (AD) i sicrhau bod y cyflogai yn ymwybodol o systemau cymorth sydd ar gael;
- Sicrhau y caiff yr holl ymholiadau gan rieni eu cyfeirio at yr Adran Awdurdod Lleol briodol;
- Cyfrannu at ddiweddarau ac adolygu'r Polisi Diogelu;
- Sicrhau y cyfeirir at y Polisi a'i fod ar gael ar gopi caled mewn lleoliadau penodol ar y campws.

Os caiff y Person Dynodedig ar y Campws ei amau o gam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed, mae'n rhaid i'r aelod neu'r aelodau o staff sy'n amau fynd at yr Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd), a fydd yn cyflawni rôl y Person Dynodedig yn y cyd-destun hwn.

Swyddog Hyfforddiant Diogelu

Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fydd y Swyddog Hyfforddiant Diogelu a bydd yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod pob aelod o staff y Coleg yn ymgymryd â hyfforddiant ar y lefel briodol yn rheolaidd, gan gynnwys cwblhau hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Sicrhau y nodir anghenion hyfforddi, gan ymgynghori ag unigolion a threfnu hyfforddiant mewn swydd i staff y Coleg;
- Cael hyfforddiant mewn materion amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a gweithio rhyngasiantaethol fel sy'n ofynnol a chael hyfforddiant gloywi o leiaf bob tair blynedd;
- Cyfrannu at ddiweddarau ac adolygu'r Polisi Diogelu.

12.0 CWNSELWYR Y COLEG

Dylai unrhyw un sy'n hysbysu aelod o staff o amheuaeth o gam-drin gael y cyfle i gael gwasanaeth cwnsela gan Gwnselydd y Coleg. Os nad yw'r unigolyn dan sylw yn dymuno gweld Cwnselydd, mae'n rhaid parchu'r dymuniad hwn. Dylid hysbysu'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed y gallant siarad â chwnselydd yn y dyfodol os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Yn ogystal, gall yr aelod o staff y datgelwyd y cam-drin iddo a/neu a oedd yn pryderu am gam-drin posibl fynd at Gwnselydd drwy'r Rhaglen Cymorth i Gyflogeion, ac efallai y bydd yn dymuno manteisio ar y cyfle hwn pan fydd yn gyfleus iddo wneud hynny.

Eir i'r afael â'r weithdrefn ar gyfer honiadau o gam-drin a dderbynnir gan Gwnselwyr yn y ddogfen atodol, Gweithdrefn Amddiffyn Plant – Canllawiau i gwnselwyr (Atodiad B).

Argymhellir y dylai Cwnselydd y Coleg y datgelir honiadau o gam-drin iddo ymgynghori â'i oruchwyliwr mewn achosion o'r fath, er y dylid diogelu manylion adnabod y "cleient" cymaint â phosibl.

Dylai Cwnselwyr y Coleg hysbysu plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed o'r dechrau o'r cyfyngiadau ar allu'r Cwnselydd i gadw'n gyfrinachol faterion y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn eu codi. Dylid nodi unrhyw gyfyngiadau o'r fath yn glir mewn unrhyw gontract ysgrifenedig.

13.0 ANFODLONRWYDD AG YMCHWILIAD/FFORDD YR YMDRINIWYD Â'R GŴYN

Os bydd unrhyw unigolyn yn dymuno cwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'r mater, dylid cyflwyno'r gŵyn hon yn ysgrifenedig i'r Is-bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd) a fydd yn adolygu'r manylion.

Os canfyddir bod unrhyw honiadau yn rhai dilys, bydd yr Is-bennaeth yn adolygu'r dystiolaeth er mwyn gweld a ddylid rhoi gweithdrefnau disgyblu'r Coleg ar waith, a ddylid rhoi unrhyw gosbau ac a oes angen hysbysu asiantaethau allanol o'r canfyddiadau.

ATODIAD A

Cysylltu â'r Adran briodol yn yr Awdurdod Lleol

Yr Adran Awdurdod Lleol briodol y dylid cysylltu â hi mewn achosion honedig o gam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed fydd yr un sy'n cwmpasu'r ardal lle digwyddodd y digwyddiad.

Felly, os digwyddodd y digwyddiad yng nghartref y dysgwr, yr Adran Awdurdod Lleol briodol fyddai'r Adran ar gyfer yr Ardal Ddaearyddol honno.

Os digwyddodd y digwyddiad ar y Campws, yr Adran Awdurdod Lleol briodol fyddai'r Adran yn cwmpasu'r Campws hwnnw.

Mae'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol priodol ar gyfer pob Campws fel a ganlyn:

Campws Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

BGLZ	Glynebwy C2BG	(01495) 315700
	Tîm Dyletswydd Argyfwng	(0800 3284432)
	Rheolwr Diogelu	(01495) 354792
Brynbuga	Sir Fynwy	(01291 635669)
Dinas Casnewydd	Casnewydd	(01633) 235273
Pont-y-pŵl	Pont-y-pŵl	(01633) 628914

Crosskeys Gellihaf (01443) 873 514

Swyddog Datblygu Amddiffyn Plant Caerffili (02920) 858 850

Y tu allan i oriau gwaith arferol, gellir cysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol mewn Argyfwng drwy'r heddlu. (*Pencadlys Heddlu Gwent. Croesyceiliog, Cwmbrân 01633 838111*).

ATODIAD B

Gweithdrefn Ddiogelu - Canllaw i Gwnselwyr

Cysylltiad Cyntaf

Mae'n rhaid i gwnselwyr bob amser bwysleisio ar ddechrau rhaglen gwnsela na allant sicrhau cyfrinachedd o dan amgylchiadau lle y byddai angen iddynt ddatgelu gwybodaeth dan y gyfraith.

Pan wneir datgeliad:

- a. Pan ymddengys fod unigolyn mewn perygl o niwed sylweddol, ond nid oes unrhyw risg i eraill:
 - Dylid ceisio cytundeb cleientiaid i ddatgelu i'r Person Dynodedig a Gwasanaethau Cymdeithasol. Os cytunir ar hyn, dylid hysbysu'r Person Dynodedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl;
 - Os na chytunir ar hyn, mae'n rhaid i'r cwnselydd benderfynu a ddylid datgelu.

Os bydd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn siarad ag aelod o staff ac yn gofyn i'w wybodaeth gael ei chadw'n gyfrinachol, mae'n bwysig bod yr aelod o staff yn dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed bod ganddo gyfrifoldeb i gyfeirio achosion o gam-drin honedig at yr asiantaethau priodol er lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed ei hun.

Os byddwch o'r farn bod y plentyn mewn angen neu y gall fod mewn angen, dylech gyfeirio'r plentyn at y gwasanaethau cymdeithasol. Gall hyn gynnwys plentyn y credwch ei fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol.

Efallai y bydd Cynghorwyr yn pryderu ynghylch y cyfyngiadau cyfreithiol neu foesegol ar rannu gwybodaeth, yn arbennig gydag asiantaethau eraill. Dylech fod yn ymwybodol o'r gyfraith a dylech gydymffurfio â'r cod ymddygiad neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'ch proffesiwn. Anaml y mae'r rhain yn atal datgelu gwybodaeth yn llwyr. Dylai'r cwnselydd fod yn barod i arfer ei farn. Gallai methu â throsglwyddo gwybodaeth a allai atal trychineb eich amlygu i feirniadaeth yn yr un ffordd â datgeliad digyfiawnhad. Gall penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth fod yn arbennig o anodd os gall niweidio'r ymddiriedaeth rhwng y cwnselydd a'r claf/cleient. Lle bynnag y bo modd dylai cynghorwyr esbonio'r broblem, ceisio cytundeb ac esbonio'r rhesymau os penderfynir gweithredu yn erbyn dymuniadau rhiant/gofalwr neu blentyn/oedolyn sy'n agored i niwed. Mae'n aml yn ddefnyddiol trafod pryderon o'r fath.

Efallai y bydd rhai amgylchiadau yn bwysicach na'r ymdrech ymwybodol i geisio caniatâd cleient, yn enwedig natur frys y sefyllfa, difrifoldeb y niwed posibl i'r cleient neu eraill, diffyg dealltwriaeth ddigonol y cleient i roi caniatâd neu lle y byddai ceisio caniatâd y cleient yn gwneud y cleient yn agored i fwy o niwed.

Y ffactor allweddol wrth benderfynu p'un a ddylid datgelu gwybodaeth ai peidio yw cymesuredd, h.y. a yw'r datgeliad arfaethedig yn ymateb cymesur i'r angen i ddiogelu lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed? Mewn sefyllfa lle y mae plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed yn bygwth y bydd yn ei ladd ei hun os datgelir gwybodaeth a roddwyd ganddo i'r gwasanaethau cymdeithasol, mae'n debyg bod y ddyletswydd hollbwysig i ddiogelu lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed yn bwysicach na'r angen i gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol ar yr adeg honno. Fodd bynnag, disgwyliad i'r cwnselydd yn y sefyllfa honno ystyried ffyrdd eraill o ddiogelu lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed gydag ef a/neu ei berswadio i roi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth. Lles y plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed ddylai fod y brif ystyriaeth bob amser.

b. Pan fo risg i eraill

Mewn achosion lle ceir perygl i unigolion eraill, mae'n rhaid i'r cwnselydd arfer ei farn broffesiynol unwaith eto, fel yr uchod. Fodd bynnag, am fod o leiaf un unigolyn arall mewn perygl, mae'n rhaid i'r ffactorau y mae angen eu hystyried newid hefyd.

- a. Dylid ceisio cytundeb cleientiaid i ddatgelu i'r Person Dynodedig a Gwasanaethau Cymdeithasol. Os cytunir ar hyn, dylid hysbysu'r Person Dynodedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl;
- b. Os na chytunir arno, mae'n rhaid i'r cwnselydd benderfynu a ddylid datgelu, gan ystyried y canllawiau a geir uchod.

ATODIAD C

Rhoi Gwybod am Honiadau o Gam-drin yn erbyn Aelodau o Staff ac Ymdrin â hwy

Mae'r Coleg yn cydnabod y gellir gwneud honiad o gam-drin plant neu oedolion sy'n agored i niwed yn erbyn aelod o staff am amrywiaeth o resymau ac y gall yr honiad fod yn wir neu'n anwir. Cydnabyddir hefyd y gall penderfyniadau brysiog neu benderfyniadau gwael niweidio enw da, hyder a gyrfa unigolyn. Felly ymdrinnir â honiadau o gam-drin gan aelod o staff mewn modd sensitif.

Mae'n hanfodol bod unrhyw honiad o gam-drin a wneir yn erbyn aelod o staff yn cael ei drin yn deg, yn gyflym ac yn gyson. Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i'r holl staff, boed yn staff addysgu, staff gweinyddol, rheolwyr, staff cymorth neu wirfoddolwyr.

Cael Honiad gan Blentyn/ Oedolyn sy'n Agored i Niwed

Dylai aelod o staff sy'n cael honiad am aelod arall o staff ddilyn y canllawiau yn rhan 8.0 ar gyfer ymdrin â datgelu.

Dylid rhoi gwybod am yr honiad i'r Pennaeth ar unwaith, oni bai mai'r Pennaeth yw'r unigolyn y gwneir yr honiad yn ei erbyn, ac yn yr achos hwnnw dylid hysbysu'r aelod o staff sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol neu'r llywodraethwr dynodedig.

Dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth)

- Gael manylion ysgrifenedig am yr honiad gan yr unigolyn a'i cafodd, wedi eu dyddio a'u llofnodi. Dylai'r manylion ysgrifenedig gael eu cydlofnodi a'u dyddio gan y Pennaeth (neu'r person dynodedig).
- Cofnodi gwybodaeth mewn perthynas ag amser, dyddiadau, lleoliad ac enwau unrhyw dystion posibl. Dylid cadw'r wybodaeth hon yn ddiogel.

Asesiad Cychwynnol gan y Pennaeth (neu'r person dynodedig)

Dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) wneud asesiad cychwynnol o'r honiad gan ymgynghori â'r uwch aelod o staff sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol, fel y bo'n briodol.

Lle yr ystyrir bod yr honiad yn weithred droseddol bosibl neu'n awgrymu bod y plentyn wedi dioddef, yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol rhaid rhoi gwybod am y mater yn uniongyrchol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol briodol.

Mae'n bwysig nad yw'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn ymchwilio i'r honiad. Dylai'r asesiad cychwynnol fod ar sail yr wybodaeth a gafwyd a bydd hyn yn penderfynu p'un a yw'r honiad yn gwarantu ymchwiliad pellach.

Dyma ganlyniadau posibl eraill:

- Bod yr honiadau mor ddifrifol eu bod yn gofyn am ymchwiliad gan yr heddlu a/neu wasanaethau cymdeithasol.
- Bod yr honiad yn ymddygiad amhriodol neu'n benderfyniad gwael gan yr aelod o staff ac nid yw'n drosedd bosibl nac yn achosi niwed sylweddol i'r plentyn neu'r oedolyn sy'n agored i niwed. Dylid mynd i'r afael â'r mater yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Coleg.
- Gellir dangos bod yr honiad yn ffug am ei bod yn amhosibl i'r ffaith neu'r ffeithiau a honnir fod yn wir.

Ymholiadau ac Ymchwiliadau

Ni ddylid drysu rhwng ymholiadau amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed gan wasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu ac ymholiadau disgyblu mewnol gan y Coleg. Efallai y bydd y Coleg yn gallu defnyddio canlyniad ymholiadau asiantaethau allanol i gynorthwyo ei weithdrefnau ei hun. Nid oes gan asiantaethau amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cynnwys yr heddlu unrhyw bŵer i gyfarwyddo'r Coleg i weithredu mewn ffordd benodol. Fodd bynnag, dylai'r Coleg gynorthwyo'r asiantaethau â'u hymholiadau.

Bydd y Coleg yn ystyried dal mewn dirymedd ei ymholiadau mewnol ei hun tra bod ymchwiliadau ffurfiol yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol yn mynd rhagddynt; os oes perygl y byddai ymholiadau'r Coleg yn niweidio'r ymchwiliadau hyn.

Bydd unrhyw ymholiad mewnol yn cydymffurfio â gweithdrefnau disgyblu staff presennol.

Os bydd ymchwiliad gan asiantaeth allanol, er enghraifft, yr heddlu, fel arfer dylai'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) gymryd rhan a chyfrannu at y drafodaeth ar y strategaeth ryngasiantaethol. Mae'r Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn gyfrifol am sicrhau bod y Coleg yn rhoi pob cymorth gydag ymholiadau'r asiantaeth. Bydd ef/hi yn sicrhau bod cyfrinachedd priodol yn cael ei gadw mewn cysylltiad â'r ymholiadau er budd yr aelod o staff y gwneir yr honiad yn ei erbyn.

Bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn cynghori'r aelod o staff y dylai gysylltu â chynrychiolydd, er enghraifft undeb llafur.

Yn amodol ar wrthwynebiadau gan yr heddlu a/neu asiantaethau ymchwilio eraill bydd y Pennaeth (neu'r person dynodedig) yn:

- Hysbysu'r plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed neu'r rhiant/gofalwr sy'n gwneud yr honiad bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo a'r hyn fydd y broses debygol yn ei gynnwys.
- Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yr holl blant/holl oedolion sy'n agored i niwed sy'n gwneud yr honiad wedi eu hysbysu bod yr honiad wedi ei wneud a'r hyn y bydd y broses debygol yn ei gynnwys.
- Hysbysu'r aelod o staff y gwnaed yr honiad yn ei erbyn o'r ffaith bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo a'r hyn y bydd y broses debygol yn ei gynnwys.
- Hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Llywodraethwr Dynodedig o'r honiad a'r ymchwiliad.

Bydd y Pennaeth neu'r person dynodedig yn cadw cofnod ysgrifenedig llawn o'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r honiad.

Gwahardd Staff Dros Dro

Mae angen i'r risgiau posibl o niwed i blant ac oedolion sy'n agored i niwed a berir gan unigolyn a gyhuddwyd gael eu gwerthuso a'u rheoli'n effeithiol ac mewn rhai achosion bydd angen i'r Coleg ystyried gwahardd yr unigolyn dros dro, tan i'r achos gael ei ddatrys. Ni ddylid gwahardd dros dro yn awtomatig ym mhob achos lle canfyddir bod honiad yn gwarantu ymchwiliad pellach. Dylid ei ystyried:

- Pan fydd plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed mewn perygl
- Lle mae'r honiadau o bosibl yn ddigon difrifol i gyfiawnhau diswyddo ar sail camymddwyn difrifol
- Lle y bo'n angenrheidiol ar gyfer cynnal yr ymchwiliad yn dda ac yn effeithlon.
- Bydd gwaharddiad dros dro yn unol â Gweithdrefnau Disgyblu'r Coleg.

Lle caiff aelod o staff ei wahardd dros dro, dylai'r Pennaeth (neu Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Llywodraethwyr) fynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Lle mae'r Pennaeth wedi ei wahardd dros dro bydd angen i Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Llywodraethwyr weithredu i addasu rheolaeth y Coleg.
- Dylid hysbysu Rhieni/Gofalwyr y plant neu'r oedolion sy'n agored i niwed wrth wraidd yr honiadau o'r gwaharddiad dros dro. Dylid gofyn iddynt drin yr wybodaeth yn gyfrinachol. Dylid ystyried hysbysu'r plant neu'r oedolion sy'n agored i niwed sy'n destun y cam-drin honedig o'r gwaharddiad dros dro hwn.
- Dylid hysbysu'r uwch staff sydd angen gwybod y rheswm dros y gwaharddiad dros dro.
- Yn dibynnu ar natur yr honiad, dylai'r Pennaeth ystyried gyda'r Llywodraethwr enwebedig a ddylid gwneud datganiad cyhoeddus i fyfyrwyr y Coleg a/neu Riant a/neu ofalwr gan roi ystyriaeth ddilys i'r angen am gyfrinachedd neu i osgoi cyhoeddusrwydd diangen.
- Bydd y Pennaeth yn ystyried yn ofalus ac yn adolygu'r penderfyniadau o ran pw y dylid ei hysbysu o'r gwaharddiad dros dro a'r ymchwiliad. Dylid ymgynghori â'r asiantaethau awdurdod lleol priodol a'r awdurdodau ymchwilio allanol.
- Dylid rhoi cymorth priodol i'r aelod o staff a waharddwyd dros dro yn ystod y cyfnod o waharddiad dros dro yn cynnwys mynediad at gwrselwyr y Coleg fel y bo'n briodol. Dylid rhoi gwybodaeth am gynnydd a datblygiad yr achos iddo/iddi, a hynny yn rheolaidd.
- Dylid parhau i adolygu'r gwaharddiad dros dro yn unol â gweithdrefnau disgyblu'r Coleg.

Yr Ymchwiliad Disgyblu

Dylid cynnal yr ymchwiliad disgyblu yn unol â gweithdrefnau disgyblu staff presennol y Coleg.

Dylid hysbysu'r plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed sydd wrth ganol yr honiad a/neu ei rieni o ganlyniad yr ymchwiliad a'r gweithdrefnau. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r aelod staff ddychwelyd i'r Coleg (os yw wedi ei wahardd).

Dylai'r Pennaeth (neu Gadeirydd/Is-gadeirydd y Llywodraethwyr) ystyried pa wybodaeth y dylid ei rhyddhau i boblogaeth gyffredinol y Coleg.

Honiadau di-sail

Gall honiadau ffug fod yn arwydd o broblemau o gam-drin mewn manau eraill. Dylid cadw cofnod ohonynt ac ystyried eu cyfeirio at yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Plant er mwyn i asiantaethau eraill allu gweithredu ar yr wybodaeth.

Mewn ymgynghoriad â'r aelod o staff â chyfrifoldeb arweiniol am amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed a/neu'r Llywodraethwr dynodedig, bydd y Pennaeth yn:

- Hysbysu'r aelod o staff y gwneir yr honiad yn ei erbyn ar lafar ac yn ysgrifenedig na chymerir unrhyw gamau disgyblu pellach na chmau gweithredu amddiffyn plant.
- Hysbysu rhieni/gofalwyr y dioddefwr honedig bod yr honiad wedi ei wneud a'r canlyniad.
- Lle cafodd yr honiad ei wneud gan blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed heblaw am y dioddefwr honedig, dylid ystyried hysbysu rhieni/gofalwyr y plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed hwnnw.
- Paratoi adroddiad yn amlinellu'r honiad a rhoi rhesymau dros y casgliad nad oedd iddo sail a chadarnhau bod y camau gweithredu uchod wedi eu cymryd.

Ni ddylai staff deimlo'n bryderus am roi gwybod am unrhyw amheuan o gam-drin gan aelod o staff am eu bod yn ofni y caiff camau disgyblu eu cymryd yn eu herbyn pe bai'r honiadau yn ddi-sail.

Cofnodion

Mae'n bwysig bod dogfennau yn ymwneud ag ymchwiliad yn cael eu cadw mewn man diogel, ynghyd â chofnod ysgrifenedig o'r canlyniad ac, os cymerir camau disgyblu, dylid cadw manylion ar ffeil bersonol a chyfrinachol yr aelod o staff.

Os caiff aelod o staff ei ddiswyddo neu os yw'n ymddiswyddo cyn bod y broses ddisgyblu yn cael ei chwblhau, dylid ei hysbysu o ddyletswydd statudol y Coleg i hysbysu'r Cynllun Datgelu a Gwahardd.

Dylid ceisio cyngor cyfreithiol os oes unrhyw amheuan o ran faint o wybodaeth y gellir ei rhannu.

Monitro Effeithiolrwydd

Lle gwnaed honiad yn erbyn aelod o staff, dylai'r Llywodraethwr Dynodedig, ynghyd â'r Aelod o Staff â'r Cyfrifoldeb Arweiniol, ar ddiwedd yr ymchwiliad ac unrhyw weithdrefnau disgyblu, ystyried a oes unrhyw faterion yn codi ohono a allai arwain at wella gweithdrefnau a/neu bolisiau'r Coleg a/neu y dylid eu dwyn at sylw'r SEWSCB. Dylid hefyd ystyried anghenion hyfforddiant staff.

GWEITHDREFNAU RECRIWTIO A DETHOL

Bydd gan y Coleg weithdrefnau recriwtio ar waith a fydd yn sicrhau y gofelir bod plant/oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag pobl anaddas.

Bydd y gweithdrefnau recriwtio yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr yn y Coleg a all weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. Bydd y gweithdrefnau recriwtio yn cynnwys y canlynol:

- Cadarnhau manylion adnabod;
- Caiff y swydd neu'r rôl ei diffinio'n glir;
- Caiff y meini prawf allweddol ar gyfer y swydd neu'r rôl eu nodi;
- Y gofyniad i gyflwyno tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau academiaidd/galwedigaethol;
- Cael geiradaon proffesiynol a geiradaon cymeriad;
- Dilysu hanes cyflogaeth flaenorol;
- Cynllun Datgelu a Gwahardd Safonol (DBS), gwiriadau ar gyfer unrhyw Ymgeisydd neu Oedolyn sy'n gwirfoddoli nad yw'n gwneud cais i weithio/gwirfoddoli i ymwneud â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, gan barhau i ddefnyddio datgeliad yr ymgeisydd mewn ffordd sensitif a chyfrinachol
- Gwiriad manylach DBS lle bo'r Ymgeisydd neu'r Gwirfoddolwr yn gwneud cais i weithio fel rhan o weithgaredd a reoleiddir
- Defnyddio amrywiaeth o dechnegau dewis (e.e. cymwysterau, profiad blaenorol, cyfweliad, gwiriadau geiradaon).

O ganlyniad i gyflwyno'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

- Ni ddylai'r Coleg gyflogi, na defnyddio fel gwirfoddolwr, berson y mae'n gwybod sydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed fel rhan o weithgaredd a reoleiddir.

ATODIAD D

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Mae Barnardo's Cymru yn nodi bod 'cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc yn ffurf gudd ar gam-drin a'i fod felly yn anodd ei ddiffinio. Datblygwyd nifer o wahanol ddiffiniadau drwy waith ymchwilwyr ac ymarferwyr er bod y cysyniadau o gamfanteisio a chyfnewid yn ganolog i bob un'.

Mae un diffiniad fel a ganlyn:

'Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi plant a phobl ifanc, neu ddylanwadu arnynt, i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath ar gam-drin rhywiol lle mae rhyw fath o daliad yn cael ei gyfnewid a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, amddiffyniad neu anwyldeb. Mae natur agored i niwed y person ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisio perthnasodd ac i roi caniatâd gwybodus' Clutton. S a Coles. J (2008)

Y prif ffurfiau cysylltiedig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant yw:

- cam-drin drwy gyfnewid gweithgarwch rhywiol am ryw fath o daliad
- cam-drin drwy gynhyrchu delweddau anwedus a/neu unrhyw ddeunydd anwedus arall sy'n cynnwys plant boed hynny'n ffotograffau, ffilmau neu dechnolegau eraill
- cam-drin drwy hudo p'un a yw hynny drwy gyswllt uniongyrchol neu drwy ddefnyddio technolegau fel ffonau symudol a'r rhyngwrwyd
- cam-drin drwy fasnachu plant at ddibenion rhywiol

Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf arbennig o guddiedig o gam-drin ac mae achosion o ddatgelu'r ffurf hon o gam-drin yn hynod o brin. Felly, mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn gyfarwydd â Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF) er mwyn gallu adnabod plant sy'n wynebu risg. Mae dangosyddion risg a natur agored i niwed cam-fanteisio'n rhywiol ar blant wedi eu profi a chânt eu hamlinellu isod.

Mae'r ffactorau agored i niwed ar gyfer plant a phobl ifanc fel a ganlyn:

- wedi eu hynysu gan rwydwaith cymheiriaid / cymdeithasol
- hanes teuluol o anawsterau iechyd meddwl
- hunan-barch isel
- cam-drin corfforol gan riant/gofalwr/aelod o'r teulu
- esgeulustod emosiynol gan riant/gofalwr/aelod o'r teulu
- hanes teuluol o gamddefnyddio sylweddau
- hanes teuluol o gam-drin domestig
- cydberthnasau teuluol yn chwalu
- llety anaddas/amhriodol
- diffyg cydberthynas gadarnhaol ag oedolyn amddiffynnol

Mae'r dangosyddion risg y mae'n bwysig bod yn ymwybodol ohonynt er mwyn helpu i adnabod plant a phobl ifanc "sy'n wynebu risg" fel a ganlyn:

Dangosyddion risg sylweddol:

- cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu'n hirach

- cydberthynas "cariad hŷn" gydag oedolyn sydd mewn rheolaeth lwyr
- cam-drin corfforol / emosiynol gan y "cariad" hwnnw / oedolyn hwnnw sydd mewn rheolaeth lwyr
- mynd i mewn i gerbydau / gadael cerbydau sy'n cael eu gyrru gan oedolion anhysbys
- symiau o arian na ellir eu hesbonio, dillad drud neu eitemau eraill
- mynd i ardaloedd sy'n enwog am waith rhyw
- anaf corfforol heb esboniad credadwy

Dangosyddion risg cymedrol:

- aros allan yn hwyr
- llawer o bobl yn galw heibio (oedolion anhysbys / pobl ifanc hŷn)
- defnydd o ffôn symudol sy'n achosi pryder (e.e. galwadau di-baid / negeseuon testun di-baid / dynion gwahanol yn galw)
- arwyddion o anobaith (hunan-niweidio, gorddos, anhwylder bwyta, ymddygiad heriol, ymosoddedd)
- datgelu ymosodiad rhywiol / corfforol ac yna dynnu'r honiad yn ôl
- haint a drosglwyddir yn rhywiol
- cymheiriaid sy'n cymryd rhan mewn trefniant clipio (cytuno i gyfnewid gweithred rywiol ond heb fwriadu ei chyflawni) a/neu gamfanteisio rhywiol
- camdefnyddio cyffuriau / alcohol
- defnydd o'r rhyngwyd sy'n achosi pryder
- gwahardd o'r ysgol neu absenoldeb heb esboniad neu wedi ymddieithrio yn y coleg / hyfforddiant
- byw'n annibynnol a methu ag ymateb i ymdrechion gan weithwyr i gadw mewn cysylltiad

Yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant, os bydd aelod o staff yn pryderu bod dysgwr yn wynebu risg o unrhyw ffurf ar gamfanteisio rhywiol, dylai hysbysu'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu, yn ei absenoldeb.

Bydd y Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu yn cwblhau ffurflen asesu risg SERAF ac yn atgyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol, lle mae'r plentyn yn byw.

ATODIAD E

Priodas Dan Orfod

Y Gwahaniaeth rhwng Priodas wedi ei Threfnu a Phriodas dan Orfod:

Mae'r traddodiad o briodasau wedi eu trefnu wedi gweithredu'n llwyddiannus o fewn llawer o gymunedau a llawer o wledydd ers amser maith. Rhaid gwahaniaethu'n glir rhwng priodas dan orfod a phriodas wedi ei threfnu. Mewn priodasau wedi eu trefnu mae teuluoedd y cwpwl yn cymryd rôl arweiniol wrth drefnu'r briodas ond bydd yr unigolion yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am dderbyn y trefniant. Mewn priodas dan orfod mae o leiaf un parti yn peidio â chydysynio i'r briodas a cheir rhywfaint o orfodaeth.

Mae priodas dan orfod yn bennaf yn fater o drais yn erbyn menywod. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cynnwys merched ifanc a merched rhwng 13 a 30 oed, er bod tystiolaeth sy'n awgrymu bod cymaint â 15% o ddiodefyr yn ddyonion.

Mae priodas dan orfod yn drosedd, gall y troseddau gynnwys herwydio, trais corfforol, ymddygiad bygythiol. Mae cyfathrach rywiol heb gydsyniad yn drais rhywiol.

Pa gamau y dylid eu cymryd os byddwch yn amau bod dysgwr wedi cael ei orfodi i briodi yn erbyn ei ewyllys?

- Cysylltwch â'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu ar eich campws a fydd yn asesu'r achos ac yn penderfynu a ddylid cysylltu â MEWN, y Gwasanaethau Cymdeithasol neu fynd yn uniongyrchol at Uned Priodas Dan Orfod yr Heddlu.
- Os bydd dysgwr o leiafrif ethnig yn gadael y Coleg yn annisgwyl a heb esboniad, cysylltwch â'r Person Dynodedig neu'r Arweinydd Diogelu yn eich campws a fydd yn cysylltu â MEWN (E: administration@mewn-cymru.org.uk) er mwyn pennu pam mae'r dysgwr wedi gadael y Coleg yn 'sydyn' heb esboniad a monitro unrhyw bryderon.

Rhifau Cyswllt:

BAWSO	01633 213213 0800 731 8147
Uned Priodas Dan Orfod (FMU) Llundain	020 7008 0151
Heddlu Gwent Uned Diogelu'r Cyhoedd	01633 838111

Ar gyfer Gwent Fwyaf cysylltwch â'ch Timau Dyletswydd ac Asesu

ATODIAD F

Datganiad Diogelu Llwybrau Dysgu 14-19 (Gan gynnwys Disgyblion y Dewisir eu Haddysgu Gartref)

Fel rhan o'r Llwybrau Dysgu 14-19, caiff disgyblion ysgol y cyfle i astudio amrywiaeth o bynciau galwedigaethol y tu allan i amgylchedd yr ysgol (Lleoliad Dysgu). Mae Coleg Gwent yn bartner cydweithredol gyda llawer o ysgolion ac mae ganddo gytundebau ffurfiol gyda'i awdurdodau lleol, sy'n nodi'r trefniadau gweithredol er mwyn sicrhau bod gan bob parti ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u hymrwymiaidau a'u cyfrifoldebau fel rhan o'r cydweithrediad hwn. Mae hyn yn nodi'r meini prawf penodol canlynol fel rhan o'i Bolisi Amddiffyn Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed:

1. Mae amddiffyn plant yn cael blaenoriaeth dros Ddiogelu Data.
2. Bydd Coleg Gwent yn cysylltu â'r Lleoliad Dysgu os bydd mater amddiffyn plant yn codi. Os na fydd hynny'n bosibl, bydd Coleg Gwent yn cysylltu â Swyddog Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol a fydd yn cynorthwyo'r plentyn hyd nes y gall y Lleoliad Dysgu ail-gymryd cyfrifoldeb.
3. Mae'r Lleoliad Dysgu yn gyfrifol am ei bolisi ei hun sy'n cwmpasu gweithio ar y cyd ac am sicrhau bod darpariaeth gydweithredol yn addas ar gyfer ei ddysgwyr.
4. Mae'r Lleoliad Dysgu yn gyfrifol am gynnal gwiriadau'r DBS ac am sicrhau bod Coleg Gwent wedi cynnal gwiriadau DBS manwl.
5. Rhaid i'r Lleoliad Dysgu a Choleg Gwent sicrhau bod cyfnod sefydlu dysgwyr yn cynnwys sylw cywir a phriodol i ddiogelu.
6. Rhaid i'r Ganolfan Ddysgu a Choleg Gwent sicrhau y nodir personau dynodedig ymhob un o'u sefydliadau, a hwythau wedi ei hyfforddi'n briodol.
7. Dylai cytundebau egluro dyletswyddau a hawliau pob un o'r llofnodwyr.